Cyngor
Meddygol
Cyffredinol




# Cynllun busnes

# 2024

# Ein blaenoriaethau ar gyfer 2024 er mwyn cynorthwyo ein strategaeth gorfforaethol

Ein gweledigaeth yw bod yn rheolydd effeithiol, perthnasol a thosturiol ar gyfer cleifion, y cyhoedd a gweithwyr meddygol proffesiynol. Ein rôl graidd yw darparu gwasanaeth rheoleiddio hyblyg ac ymatebol sy'n diogelu cleifion, sy'n cynorthwyo gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal o ansawdd, ac sy'n bodloni anghenion system iechyd y DU. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn:

- pennu'r safonau ar gyfer gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon eu cyflawni
- sicrhau bod meddygon yn cael yr addysg a'r hyfforddiant y mae eu hangen arnynt i ddarparu gofal da a diogel i gleifion
- gwirio pwy sy'n gymwys i weithio fel meddyg yn y DU, a gwirio eu bod yn parhau i gyflawni'r safonau proffesiynol yr ydym yn eu gosod trwy gydol eu gyrfaoedd
- cynnig canllawiau a chyngor er mwyn helpu meddygon i ddeall yr hyn a ddisgwylir ohonynt
- ymchwilio pan geir pryderon y gallai diogelwch cleifion neu hyder y cyhoedd mewn meddygon fod mewn perygl, a chymryd camau yn ôl yr angen.



O ystyried yr ansicrwydd a'r sialensiau y mae'r system gofal iechyd a'r proffesiwn meddygol yn eu hwynebu, nas gwelwyd eu tebyg erioed o'r blaen, byddwn yn parhau i:

- wrando ar brofiadau ac anghenion cleifion, y cyhoedd, a'r proffesiwn er mwyn cyfrannu at ein blaenoriaethau
- defnyddio tystiolaeth a data er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni rhan mor fawr ag y bo modd wrth ymateb i'r sialensiau hynny.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn datblygu'r cynnydd a sicrhawyd gennym hyd yn hyn, gan ganolbwyntio ein hymdrechion ar y meysydd sy'n cael blaenoriaeth gennym.

Rhoddir blaenoriaeth i reoleiddio tosturiol o hyd. Ac rydym yn disgwyl gweld prosiectau a gweithgareddau a gychwynnwyd gennem dan thema *Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig* yn dechrau magu momentwm. Mae ein hasesiad o'r cynnydd yn dangos ein bod wedi cychwyn ar, ac mewn rhai achosion wedi cwblhau, llawer o'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer ein strategaeth gorfforaethol bresennol.

Fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r strategaeth gyfredol ddod i ben y bydd yr effaith a nifer o'r canlyniadau hirdymor yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae hyn yn wir ar gyfer rhai o'n prosiectau a'n huchelgeisiau ar raddfa fawr, megis:

- ein gwaith ynghylch rheoleiddio cymdeithion meddygol (PAs) a chymdeithion anesthesia (AAs)
- cyflwyno'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA)
- ein targedau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (ED&I)

Bellach, rydym mewn sefyllfa gryfach i ystyried y cyfleoedd sydd o'n blaenau, megis y rhai a ddarperir gan ddiwygio rheoleiddio, ein rôl yn y dyfodol fel rheolydd aml-broffesiwn, a sut y gallwn gydweithio gydag eraill i sicrhau ein bod yn fwy effeithiol.

# Cyflawni ein swyddogaethau statudol

## Rheoleiddio effeithlon ac effeithiol

Yn 2024, rydym yn disgwyl:

- prosesu tua **66,000** o argymhellion ailddilysu ar gyfer meddygon
- cynorthwyo tua **27,500** o ymgeiswyr tro cyntaf cymwys i ymuno â chofrestr feddygol y DU (gan gynnwys 18,500 o geisiadau gan raddedigion meddygol rhyngwladol a 9,000 o geisiadau gan raddedigion meddygol y DU)
- brysbennu cwynion tua **10,500** o feddygon a chynnal ymchwiliad am tua **1,500** o feddygon
- cymryd camau pellach er mwyn ymateb i bryderon ar ffurf cynnal tua **300** o wrandawiadau'r Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol
- ymweld ag **11** o ysgolion meddygol newydd a defnyddio ein proses sicrhau ansawdd ragweithiol i adolygu **15** o sefydliadau hyfforddiant ôl-raddedig a **38** o ysgolion meddygol sefydledig (gweler ein hadroddiadau sicrhau ansawdd am ragor o wybodaeth)
- adolygu **104** o gwricwla ôl-raddedig a'u rhaglenni asesu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fodloni ein safonau
- ymateb i tua **450** o ymholiadau moesegol mewn perthynas â'n safonau ar gyfer meddygon
- cynnal dros **1,000** o ddigwyddiadau, gan ymgysylltu gyda dros **45,000** o feddygon a myfyrwyr
- cynnal dros **150** o ddigwyddiadau Croeso i Arfer yn y DU, a thrwy wneud hynny, cynorthwyo dros **12,000** o raddedigion meddygol rhyngwladol
- troi at **64,000** o hyfforddeion a **53,000** o hyfforddwyr er mwyn deall eu safbwyntiau ynghylch hyfforddiant, ac ynghylch ansawdd addysg feddygol ôl-raddedig trwy gyfrwng ein harolwg hyfforddiant cenedlaethol
- sicrhau bod o leiaf **3,500** o feddygon yn llenwi arolwg Baromedr 2024.

# Sicrhau bod pob rhyngweithiad yn bwysig

## Rheoleiddio cymdeithion meddygol (PAs) a chymdeithion anesthesia (AAs)

Byddwn yn cwblhau ein fframwaith er mwyn rheoleiddio PAs ac AAs – ac yn unol â deddfwriaeth, disgwyliwn y byddwn yn dechrau cofrestru'r gweithwyr proffesiynol hyn tua diwedd 2024. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â PAs, AAs, cyflogwyr ac addysgwyr er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer rheoleiddio. A byddwn yn cynorthwyo ac yn annog camau gweithredu gan sefydliadau partner ynghylch materion ehangach sy'n ymwneud â defnyddio a datblygu PAs ac AAs o fewn y tîm aml-ddisgyblaethol.

Noddwr: Una Lane

## Diwygio Rheoleiddio

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i ddiwygio ein deddfwriaeth. Ar hyn o bryd, rydym yn datblygu'r fframwaith cyfreithiol, y rheolau, y polisïau a'r prosesau newydd a fydd yn eistedd ar draws ein holl swyddogaethau rheoleiddio – bydd y rhain yn cynorthwyo'r ddeddfwriaeth newydd pan fydd yn dod i rym. Mae ein hamserlenni ynghylch pryd y gallwn ymgynghori ar y diwygiadau hyn, a'u gweithredu, yn ddibynnol ar y DHSC.

Byddwn yn parhau ein gwaith ymgysylltu parhaus gyda rhanddeiliaid hefyd trwy rannu gwybodaeth am sut y bydd diwygio rheoleiddio yn edrych a mabwysiadu dull gweithredu cyd-gynhyrchu tuag at ddylunio proses pan fo modd.

Bydd diwygio rheoleiddio yn newid y ffordd yr ydym yn rheoleiddio, gan gynnig mwy o hyblygrwydd i ni osod ein rheolau ein hunain a newid y ffordd yr ydym yn gweithio yn y dyfodol pan fydd tystiolaeth yn awgrymu bod modd gwneud gwelliannau. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn fwy cefnogol, yn fwy cynhwysol ac yn fwy tosturiol yn y ffordd yr ydym yn rheoleiddio. Bydd yn cynnig mwy o gysondeb hefyd rhyngom ni, a rheoleiddwyr eraill.

Noddwr: Shaun Gallagher

## Newid i Safonau'r Gymraeg

O 6 Rhagfyr 2023, daethom yn rhwym i Safonau'r Gymraeg ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd. Mae hyn yn dilyn cymeradwyaeth Senedd Cymru ym mis Gorffennaf 2022 a chael ein hysbysiad cydymffurfio ym mis Mehefin 2023. Rydym wedi manteisio ar y cyfle i wella ein cynnig Cymraeg i'r rhai sy'n manteisio ar ein gwasanaethau. Mae hyn wedi golygu gwneud newidiadau er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r safonau ar draws holl swyddogaethau'r GMC. Gallwch ddarllen mwy am hyn trwy droi at Ein hymrwymiad i siaradwyr Cymraeg.

Noddwr: Paul Reynolds

# Datblygu gweithlu meddygol cynaliadwy

## Ehangu ein llwybrau cofrestru

Rydym wedi parhau i ehangu ein llwybrau cofrestru er mwyn ymateb i'r galw cynyddol gan feddygon tramor a'r pwysau ar y gweithlu yn ein gwasanaeth iechyd.

Rydym yn diweddaru'r llwybrau presennol ac yn datblygu rhai newydd, gan weithredu cytundeb masnach ryngwladol ymhellach, ac ymateb i unrhyw newidiadau i'r trefniadau digyfnewid yn dilyn Brexit. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu cofrestru gweithwyr proffesiynol medrus fel bod mwy o feddygon yn gallu gweithio yn y DU.

Noddwr: Una Lane

## Cyflwyno Asesiad Trwyddedu Meddygol

Rydym yn cyflwyno asesiad newydd o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiad craidd meddygon sy'n dymuno ymarfer yn y DU. Bydd angen i fyfyrwyr yn ysgolion meddygol y DU basio'r Asesiad Trwyddedu Meddygol (MLA) fel rhan o'u gradd cyn y gallant ymuno â'r gofrestr feddygol o flwyddyn academaidd 2024-25 ymlaen. Bydd y prawf PLAB i feddygon rhyngwladol yn cydymffurfio â'r MLA hefyd yn 2024. O'r herwydd, bydd myfyrwyr meddygol yn y DU a meddygon rhyngwladol yn cymryd asesiadau sy'n deillio o'r un pynciau ac sy'n bodloni'r un gofynion.

Noddwr: Colin Melville

## Lansio ein strategaeth addysg

Rydym yn lansio rhaglen waith i ddatblygu a gweithredu safonau newydd, gan weithio gydag eraill i wireddu nodau uchelgeisiol ym maes addysg feddygol.

Dros y bum mlynedd nesaf, rydym yn bwriadu:

- helpu i greu mwy o addysgwyr, goruchwylwyr, hyfforddwyr a mentoriaid, a bod y rhain yn gynyddol amrywiol ac yn cael eu cynorthwyo yn well
- sicrhau y gall hyfforddiant arloesi er mwyn addasu i'r newidiadau gwasanaeth sy'n ofynnol, gan gynnal ein safonau, a chanolbwyntio ar sgiliau gwell a rennir a mesur canlyniadau yn hytrach nag amser
- cynorthwyo datblygiad gyrfa a dysgu gydol oes i'r holl weithwyr meddygol proffesiynol er mwyn sicrhau y caiff anghenion cleifion eu bodloni'n well
- cynorthwyo'r cam arfaethedig o ehangu nifer y lleoedd hyfforddiant mewn ysgolion meddygol a'r arloesi wrth ddarparu, gan sicrhau y caiff ein safonau eu bodloni ar yr un pryd.

Byddwn yn ailddychmygu addysg ôl-gymhwyso fel ei fod yn fwy hyblyg ac yn haws ymwneud ag ef – bydd hyn yn golygu ystyried rôl asesu, ac annog cyffredinoli. A byddwn yn sicrhau datblygiad gyrfa gwell i bawb trwy wella mynediad, ansawdd a chysondeb ym maes dysgu gydol oes.

Noddwr: Colin Melville

# Buddsoddi yn ein pobl i wireddu ein huchelgais

## Parhau i ddenu a dal gafael ar dalent

Rydym yn ymdrechu i ddenu a dal gafael ar dalent amrywiol, a byddwn yn parhau i wneud hynny, gan gynnwys cynnal pecyn cystadleuol i unigolion newydd sy'n cael eu recriwtio ac i staff presennol, a meithrin cydnerthedd ar gyfer ein gofynion o ran sgiliau yn y dyfodol.

Yn ogystal, rydym yn targedu'r rhwystrau y mae rhai cydweithwyr yn eu hwynebu wrth geisio sicrhau cynnydd, a chynorthwyo anghenion o ran sgiliau yn y dyfodol trwy gyfrwng rhaglen ddysgu a datblygiad sefydliadol (L&OD) gynhwysfawr. Law yn llaw â hyn, rydym yn gweithio i sicrhau achrediad Aur dan gynllun Buddsoddwyr mewn Pobl (IiP).

Noddwr: Neil Roberts

# Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu gofal diogel

## Canlyniadau rheoleiddio tecach

Roedd ein strategaeth gorfforaethol ar gyfer 2021-2025 yn cadarnhau ein hymrwymiad o'r newydd i feithrin diwylliant ED&I ym mhopeth a wnawn fel rheolydd ac fel cyflogwr. Yn 2020, fe wnaethom bennu dyheadau ynghylch cydraddoldeb er mwyn amlygu'r angen am weithredu ystyrlon i roi sylw i anghydraddoldebau sydd wedi bodoli ers amser maith ac effeithiau anfantais a gwahaniaethu ar sail hil.

Ein dyheadau o ran ED&I yw mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella ymddiriedaeth a hyder yn y GMC. Mae gennym dri phrosiect i'n helpu i ganolbwyntio ar sicrhau bod tegwch yn ganolog i'n gwaith.

- Mae gennym raglen waith i waredu atgyfeiriadau anghymesur gan gyflogwyr ar sail ethnigrwydd neu brif gymhwyster meddygol (PMQ) erbyn 2026.

Noddwr: Anthony Omo

- Mae gennym raglen waith i waredu gwahaniaethu, anfantais ac annhegwch mewn llwybrau addysg a hyfforddiant meddygol erbyn 2031.

Noddwr: Colin Melville

- Yn ystod 2022, cynhaliwyd adolygiad mewnol (adolygiad tegwch rheoleiddio – RFR) i archwilio sut y mae GMC yn monitro ac yn lliniaru rhag rhagfarn wrth wneud penderfyniadau. Yn 2023, dechreuom weithredu canfyddiadau'r adolygiad hwn. Y rhaglen waith hon yw pedwerydd colofn ein dyheadau ED&I ac mae'n un a fydd yn eistedd wrth ymyl ein hymrwymiadau eraill dros y tymor hir.

Noddwr: Shaun Gallagher

## Safonau proffesiynol

Byddwn yn sicrhau bod ein safonau ar gyfer y proffesiynau yr ydym yn eu rheoleiddio yn adlewyrchu disgwyliadau presennol cleifion a'r cyhoedd.

Byddwn yn sicrhau bod ein canllawiau i'r proffesiwn mor berthnasol ag y bo modd, a'u bod mor berthnasol ag y bo modd i ofal. Byddwn yn cynnig cyngor am y ffordd y mae ein canllawiau yn berthnasol mewn sefyllfaoedd go iawn, gan fanteisio ar gyfleoedd i ddylanwadu ar eraill er mwyn gwreiddio'r canllawiau ar draws gofal iechyd yn y DU.

Noddwr: Colin Melville

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **gmc-uk.org**
Ffôn: **0161 923 6602**

Cyngor Meddygol Cyffredinol, 3 Hardman Street, Manceinion M3 3AW

Ffôn testun: **ffoniwch 18001** yna
**0161 923 6602** i ddefnyddio'r gwasanaeth Cyfleu Testun.

## Ymunwch â'r sgwrs

**@gmcuk** **facebook.com/gmcuk**
**linkd.in/gmcuk** **youtube.com/gmcuktv**

To ask for this publication in another format or language, please call us on **0161 923 6602** or email us at **gmc@gmc-uk.org**.

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar **gmc@gmc-uk.org**.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd Ionawr 2024
© 2024 Cyngor Meddygol Cyffredinol

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw ffurf neu gyfrwng, ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu mewn ffordd gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y Cyngor Meddygol Cyffredinol dros y deunydd a nodi teitl y ddogfen.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/BP24/0124